**CYNGOR TREF RHUTHUN**
**RUTHIN TOWN COUNCIL**

Cofnodion (DRAFFT) cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhalwyd drwy Zoom **nos Lun, 7 o Fawrth 2022** am **7:00yh**

**YN BRESENNOL**: Cynghorwyr Heather Williams (Cadeirydd), Ken Hawkins, Robert Owen-Ellis, Ethan Jones, Jabez Redfern Oakes a Menna Jones

**191. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Cynghorwyr IfanWyn ac Ian Lewney.

**192. DATGAN BUDDIANNAU**
Datganodd y Cyng Ethan Jones fuddiant personol yn eitem 6 (*cofnod 196*) ar y ceisiadau canlynol: 02/2022/0059 Tir yn (rhan o ardd) The Nook Bryn Goodman Ruthin

**193. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**
Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 7 o Chwefror 2022 yn gywir.
***PENDERFYNWYD***: *bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 7 o Chwefror 2022 yn cael eu cadarnhau.*

**194. MATERION YN CODI**
Dim.

**195. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**
Roedd Clerc y Dref wedi dosbarthu penderfyniadau cynllunio diweddar a benderfynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych gyda'r agenda.
***PENDERFYNWYD:*** *nodwyd y penderfyniadau cynllunio diweddar a benderfynwyd gan Gyngor Sir Dinbych.*

**196. CEISIADAU CYNLLUNIO**
Trafododd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn am ganiatâd cynllunio a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer sylwadau.
***PENDERFYNWYD****: bod ymateb y Pwyllgor i'r ceisiadau fel a ganlyn:*

***PENDERFYNWYD:*** *nad oedd gwrthwynebiad i'r cais a ganlyn:*
**02/2022/0059 Tir yn (rhan o ardd) The Nook Bryn Goodman Ruthin**
Codi byngalo, garej sengl ar wahân, tirlunio a gwaith cysylltiedig

***PENDERFYNWYD:*** *wrthwynebu'r cais canlynol*
**02/2022/0033 Hen Lawnt Fowlio a Chwrt Tenis y tu ôl i The Bungalow Stryd y Castell, Rhuthun**
Codi annedd ar wahân a gwaith cysylltiedig
Cytunodd y Pwyllgor wrthwynebu'r cais ar sail yr hyn a ganlyn: pryderon gan CADW y byddai'r datblygiad arfaethedig yn '*debygol o fod yn weladwy mewn golygfeydd sylweddol a nodwyd o'r ardd hanesyddol gofrestredig ac o bosibl y byddai hyn yn dal i gael effaith andwyol ar leoliad yr*

*adeilad hanesyddol cofrestredig. gardd (o Nantclwyd y Dre)';* pryderon ynghylch digonolrwydd y ddarpariaeth ddraenio; a phryderon cyffredinol ynghylch digonolrwydd y wybodaeth a gyflwynwyd i gefnogi'r cais.

**197. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

***PENDERFYNWYD****: mai nos Lun, 11 o Ebrill am 7.00pm y cynhelir y cyfarfod nesaf.*